

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 12ed o Ragfyr 2017.

1. **Preseanol:**Gwyndaf Roberts (Cadair), OP Huws – Llanllyfni; Harry Wyn Owen – Talysarn; Justin Davies, Barry Bracegirdle – Penygroes; Craig ab Iago a Judith Humphreys – Cynghorwyr Sir /
Ymddiheuriadau: Hefina Roberts – Llanllyfni; Dafydd Jones, Sharon Wynne Jones – Talysarn; Dylan Herbert, Erfyl Williams, Nerys Williams – Penygroes; Ffion Jones – Nantlle; Dafydd Thomas – Nebo.
2. **Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir** Neb. Ni gymerodd y Cynghorwyr Sir unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar geisiadau cynllunio yn ystod y cyfarfod.
3. **Gwadd** – Craig ab Iago – Model Newydd y Gwasanaeth Ieuenctid / Beth Sydd ar y Gorwelion. Cafwyd cyflwyniad hynod o ddiddorol gan Craig am y model newydd. Fe godwyd pryderon am gwtogiadau a phwysigrwyd cefnogi sefydliad y Ffermwyr Ifanc i Gymreictod a threfnadaeth. Trafodwyd y gwasanaeth bws (Harry yn datgan diddordeb), a chwtogiadau fydd yn golygu llai o arian yn yr economi. Gofynwyd y cwstiwn allwn ni wneud rhywbeth i warchod y dyfodol? Diolchwyd Craig am ei gyfraniad.
4. **Cywirdeb cofnodion cyfarfod Tachwedd.** Barry yn cynnig cywirdeb y cofnodion a Harry yn eilio.
5. **Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Roedd y Clerc wedi cadarnhau sefyllfa yswiriant y Cyngor mewn perthynas a cae Cwtin gyda'r cwmni yswiriant. Penderfynwyd llunio llythyr i'r contractwyr ei roi drwy ddrysau tai Maes y Mor ar ddiwrnod torri gwair. Cyfarfod Co-op – cyfarfod adeiladol – mae'r cwmni'n anelu at yr 2il o Awst fel dyddiad agor y siop newydd. Goleuadau Nadolig – pentref Nebo wedi darparu goleuadau Nadolig newydd – cynnig cyfrannu £25 – pawb yn cytuno. Parcio Llanllyfni – cysylltu efo cwmni EWE i holi am greu man parcio ar dir y Quarrymans; OP Huws wedi bod yn gwneud ymholiadau am sefyllfa Eglwys Talysarn – mae bellach wedi ei gwagio a bydd yn mynd ar werth. Gall o bosib fod yn gais addas Loteri Treftadaeth – prynu, adfer, rhedeg / Cofeb R Williams Parry - gwneud ymholiadau pellach am yr 'Heritage Lottery Fund' a chael ffurflenni cyn cael cyfarfod cyhoeddus.
6. **Taflen Ariannol a Chyllid.** Derbyn yn gywir.
7. **Cynghorwyr Sir.** Cafwyd adroddiad gan Judith. Y Cynghorwyr yn cynnig y gall camera CCTV helpu wrth y safle ailgylchu ym Mhenygroes, ar adeilad y toiledau yn safle i'w agrymu i Gyngor Gwynedd.. Byddai'n amlgu'r rhai sydd yn cam-ddefnyddio'r safle ac yn creu incwm i Gyngor Gwynedd. Gwahodd Gwenllian o Gyngor Gwynedd (swyddog Ailgylchu) i gyfarfod Chwefror y Cyngor.
8. **Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio.** Barry ac OP wedi mynychu cyfarfod yng Nghaernarfon – mwy o gyfrifoldebau i Gynghorau Cymuned. Gofyn wrth Un Llais am gopi o'r hyn a drafodwyd. Cydweithio Tendrau wedi mynd allan, dyddiad cau 6ed o Ionawr. Penderfynwyd nad oes mantais i ni gyfnewid ymgeiswyr. Cyfarfod Partneriaeth nesaf ar ddechrau'r flwyddyn newydd.
9. **Cynllunio.** C17/1154/22/AM Cais amlinellol gyda rhai materion wedi eu cadw yn ol, i godi 4 ty fforddiadwy deulawr ar safle eithrio gyda mynedfa gerbydol a llecynnau parcio – Tir gyferbyn a Tai Nantlle, Nantlle- Penderfyniad y Cyngor yw Gwrthwynebu gan ei fod tu allan i'r ffin adeiladu, diffyg draenio ar y tir, mynedfa i'r ffordd. OP yn datgan y dylid annog tai newydd i bobl ifanc; C17/1164/22/TR Defnyddio llinell drydan bresennol i fwy nag un eiddo The Woollen Mill, Penygroes. Dim gwrthwynebiad.
10. **Gohebiaeth.**
*Cyngor Gwynedd: Ymatebion priffyrdd. Darllenwyd yr ymatebion.
* Ffordd Dros Dro – Naes y Farchnad, Penygroes (ar gyfer y Ffair Nadolig) – wedi bod.
*Cais Safle Treftadaeth y Byd Llechi Cymru – Gyrrwyd llythyr o gefnogaeth gan y Cyngor Cymuned.
*Arall
*Un Llais : Pwyllgor Ardal; Gwybodaeth Byw'n Iach Aros yn Iach; Cyfraith Cynllunio yng Nghymru Papur Ymgynghori; Cylchlythyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yr rhain wedi eu cylch-lythgu yn ystod y mis. Dim sylwadau.
*Llywodraeth Cymru – Adran 137. Er gwybodaeth.
*Copi llythyr gan Sian Gwenllian parthed prinder meddygon Dyffryn Nantlle. Darllenwyd llythyr Sian Gwenllian.

*Llythyr gan Jean Laurina – diweddariad. Y gwaith tirlunio cerrig man wedi ei wneud yn y fynwent ers 15 mlynedd. Gofynwyd i'r Clerc edrych faint o incwm sydd wedi dod o fynwent St Rhedyw dros y blynnydoedd. Aros am ymateb Cyngor Gwynedd parthed ffurflenni asesu risg.

*Cais grant clystyru. Gwrthodwyd y cais.

11. **Dorothea** – diweddariad /cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer y18.12.17 – Ffion, Sharon a Harry yn mynychu. Adrodd yn ol fis Ionawr.

12. **Archwilydd Mewnol**. Dim ymateb.

13. Materion Pentrefi Nantlle – torri gwair wrth fynedfa'r pentref (Craig) – gyrru'r cais ymlaen i swyddog Trefi Taclus, Cyngor Gwynedd. Llanllyfni – y fainc wedi ei thrwsio. Nasareth – cerrig ar y llecyn gwyrdd ar ochr y ffordd ger Graianfryn – cysylltu efo Cyngor Gwynedd. Penygroes Sianel angen ei glanhau yn Trem yr Wyddfa; Ffair Nadolig gwerth chweil wedi ei chynnal unwaith eto eleni.

Llwybrau a Mynwentydd. Ymweliad safle Mynwent St Rhedyw- Cynghorwyr Llanllyfni wedi cyfarfod yn y fynwent efo Harry; Rhagweld bydd angen £200mil ar gyfer y gwaith i ymestyn MacPelah ac ychwanegu at dir Gorphwysfa.

Cwyn/Diffyg Defaid yn St Rhedyw yn ystod y mis.

Gweithred: Contractwyr wedi trwsio'r bwll yn y ffens.

Cwyn/Diffyg: Dau dwll yn St Rhedyw angen eu llenwi / torri gwreiddyn.

Gweithred: Contractwyr wedi eu hysbysu i'w cau.

Cwyn/Diffyg: Bedd wedi suddo yn MacPelah.

Gweithred: Gofyn i'r contractwyr roi pridd. Parhau i gadw golwg.

14. Materion yn ymweud a'r heddlu. Dim yn codi.

15. Materion ariannol. NALC – dyfarfniadau cyflog Clec 2016-2018, pwynt cyflog SCP19 – angen ol-ddyddio i Ebrill 2016. Ffon/Rhyngwyd Clerc £25; Derbynebaw Clerc £19.60; Wales Audit Office £242.55; Designer Signs £263.28- ymholi am y pris cyn talu'r bil.

16. Ceisiadau am arian - Neuadd Goffa Llanllyfni; British Red Cross; Llangollen 2018; Welsh Hearts; Dawns i Bawb. Trafod Chwefror.